COMISIWN
gwasanaethau cyfreithiol

Gwneud Hawliau Cyfreithiol yn Realiti i Blant a Theuluoedd

Strategaeth y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol dros Gymorth Cyfreithiol Teuluol

Cyfrol Un: Papur Strategaeth

Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol

Mawrth 2007

Gwneud Hawliau Cyfreithiol yn Realiti i Blant a Theuluoedd

Strategaeth y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol dros Gymorth Cyfreithiol Teuluol

Cyfrol Un:

Papur Strategaeth

Mawrth 2007

Cynnwys

Rhagair 3

Crynodeb Gweithredol 4

Cyflwyniad 6

Adran Un: Cyd-destun a Chymhellion dros Gamau Strategol 8

Yr angen am gyngor cyfreithiol teuluol 8

Y cyflenwad gwasanaethau cymorth cyfreithiol teuluol 10

Cost gwasanaethau cymorth cyfreithiol teuluol 11

Effeithiau ar y system cyfiawnder teuluol ehangach 12

Adran Dau: Cleientiaid a Gwasanaethau 15

Cleientiaid sy'n flaenoriaeth 15

Gwasanaethau 17

Gwasanaethau cenedlaethol / rhanbarthol arbenigol 17

Gwasanaethau cyfryngu 18

Gwasanaethau ffôn 18

Ansawdd 18

Adran Tri: Caffael 20

Ffioedd sefydlog 20

Y Cod Cyllido 20

Comisiynu gwasanaethau 22

Adran Pedwar: Diwygio'r System Gyfan 24

Amserlen ar gyfer Gweithredu 26

Ategir y papur strategaeth hwn, sy'n Gyfrol 1 strategaeth y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol dros gymorth cyfreithiol teuluol, gan ail gyfrol, *Trosolwg o Wasanaethau Cyfreithiol Teuluol.* Mae Cyfrol 2 ar gael ar wefan y Comisiwn yn www.legalservices.gov.uk

Rhagair

Yn ein strategaeth ar gyfer y Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol (CLS) – *Making Legal Rights a Reality* – pwysleisiom y rôl hanfodol mae'r CLS yn ei chwarae wrth helpu pobl i amddiffyn a hyrwyddo eu hawliau sylfaenol ac i wneud gwelliannau go iawn yn eu bywydau. Ers i ni gyhoeddi'r strategaeth, mae'r Llywodraeth a'r Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol wedi pennu sut rydym yn bwriadu caffael gwasanaethau cymorth cyfreithiol yn *Legal Aid Reform: the Way Ahead* ac wedi amlinellu'n hymagwedd at sicrhau ansawdd i gleientiaid yn *Quality Relationships Delivering Quality Outcomes.*

Gyda'r cyd-destun yn glir erbyn hyn, mae'n bryd nodi'n strategaeth ar gyfer cymorth cyfreithiol teuluol, gan ei osod wrth galon diwygio'r system cymorth cyfreithiol. Mae hyn yn bwysig nid yn unig am mai cymorth cyfreithiol teuluol yw 58% o'r holl wariant cymorth cyfreithiol sifil, ond oherwydd y rôl hanfodol mae'n ei chwarae wrth helpu teuluoedd i ymdrin â'r problemau maent yn eu hwynebu. Mae angen i ni fod yn siŵr y gallant gael yr help mae arnynt ei angen - boed i ddatrys anghydfodau am drefniadau cyswllt rhwng rhieni neu i amddiffyn plant sydd mewn perygl o esgeulustod neu fenywod mewn perygl o gamdriniaeth yn y cartref.

Rydym yn cydnabod y gwaith rhagorol sy'n cael ei wneud gan ein hystod eang o ddarparwyr wrth gyflwyno gwasanaethau i helpu i fynd i'r afael â'r problemau hyn. Ond nid yw'r gwasanaethau hynny'n ddigon cysylltiedig o hyd. Gwyddom y gall problemau teuluol arwain at broblemau sifil eraill a deillio ohonynt ac mae'n hanfodol bod gan bobl fynediad i wasanaethau cyngor integredig sy'n ymdrin â'r clystyrau o broblemau maent yn eu dioddef. Hefyd mae angen i ni dargedu adnoddau lle gallant sicrhau'r buddion mwyaf.

Gweledigaeth y Llywodraeth ar gyfer y system cyfiawnder teuluol yw rhoi plant wrth wraidd y system, amddiffyn pobl sy'n agored i niwed, sicrhau bod y system yn atebol, a chynnig prosesau syml sy'n atal oedi diangen. Mae'r strategaeth hon yn gosod y fframwaith am sut y gall cymorth cyfreithiol teuluol gyfrannu at y weledigaeth honno.



Carolyn Regan
Prif Weithredwr
Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol

Crynodeb Gweithredol

Mae'r strategaeth hon yn gosod y fframwaith ar gyfer y penderfyniadau sydd i'w cymryd gan y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol dros gymorth cyfreithiol teuluol, yng Nghymru a Lloegr.

Themâu allweddol y strategaeth bum mlynedd hon yw:

- Blaenoriaethau wrth gyllido cymorth cyfreithiol teuluol
- Diwygio'r system gyfan

Blaenoriaethau wrth gyllido

Ein bwriad yw targedu adnoddau'r gyllideb cymorth cyfreithiol lle gall fod yn fwyaf effeithiol i'r cleientiaid sy'n flaenoriaeth.

Bydd hyn yn golygu:

- cyfeirio cyllid tuag at wasanaethau i blant ac oedolion sydd mewn perygl o'u cam-drin a rhieni mae eu plant yn destun achosion gofal

- darparu cymhellion pellach i rieni mewn achosion y gyfraith breifat ddatrys achosion heb fynd i'r llys

- cynyddu mynediad at wasanaethau i'r rheiny sydd mewn perygl o gamdriniaeth ddomestig

- cynnal cynllun peilot cyngor teuluol arbenigol drwy CLS Direct

- adolygu gweithrediad y Cod Cyllido er mwyn adlewyrchu blaenoriaethau cyllido

- prynu gwasanaethau cyfreithiol teuluol a lles cymdeithasol integredig

O Ebrill 2009 ymlaen byddwn yn comisiynu gwasanaethau drwy dendro yn ôl y gwerth gorau ar sail ansawdd, gallu a phris gwasanaeth yn ogystal â sut mae'n cynnig mynediad. Wrth baratoi ar gyfer hynny byddwn yn cyflwyno:

- ffioedd sefydlog i gyfreithwyr, bargyfreithwyr ac arbenigwyr

- dyraniad rhesymegol cyllidebau rhanbarthol ar sail dadansoddiad o gleientiaid cymwys

Diwygio'r system gyfan

Mae'r strategaeth yn amlinellu'r angen i weithio mewn partneriaeth â rhanddeiliaid eraill i gyflwyno canlyniadau effeithiol i deuluoedd. Er mwyn gwneud hyn byddwn yn:

- parhau i weithio gyda'r Cyngor Cyfiawnder Teuluol ar lefel genedlaethol a lleol ar draws Cymru a Lloegr

- gweithio gyda darparwyr a defnyddwyr gwasanaethau cymorth cyfreithiol teuluol

Cyflwyniad

Gweledigaeth y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol (LSC) ar gyfer cymorth cyfreithiol teuluol yw:

- Sicrhau bod gan ein cleientiaid fynediad i wasanaethau ansawdd da sy'n bodloni eu hanghenion

- Gweithio gyda darparwyr sy'n cynnig gwasanaethau ansawdd da, gwerth am arian sydd â ffocws ar y cleient

- Cyflwyno cynllun cynaliadwy o fewn y gyllideb sydd ar gael a dangos canlyniadau cadarnhaol i gleientiaid a gwerth gwirioneddol am arian i'r Llywodraeth o ran rheolaeth ariannol effeithiol a gwell gwerth am arian.

Pennodd strategaeth y Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol (CLS)[1], a gyhoeddwyd ym Mawrth 2006, ein blaenoriaethau o ran y gyfraith lles cymdeithasol. Cadarnhawyd hyn gan adolygiad yr Arglwydd Carter o gaffael cymorth cyfreithiol[2], a gyhoeddwyd y llynedd hefyd, a nododd gyfres o argymhellion am gomisiynu gwasanaethau cyfreithiol teuluol a lles cymdeithasol. Mae'r papur hwn yn dilyn yn sgîl y dogfennau hyn ac yn sgîl cyhoeddi *Legal Aid Reform: The Way Ahead* yn ddiweddar.

Diben y papur hwn yw gosod blaenoriaethau LSC ar gyfer cyllido cymorth cyfreithiol teuluol, sut rydym yn bwriadu gweithio gyda rhannau eraill o'r system cyfiawnder teuluol a chynnig fframwaith ar gyfer gwneud penderfyniadau yn ystod y pum mlynedd nesaf. Er nad yw'r ddogfen hon yn destun ymgynghoriad ffurfiol, bydd penderfyniadau polisi yn y dyfodol sy'n cael eu gwneud o fewn y fframwaith hwn yn destun ymgynghori ffurfiol, fel y bo'n briodol, â rhanddeiliaid yr effeithir arnynt yn ôl ein cod ymgynghori.

Mae cymorth cyfreithiol mewn achosion teuluol yn cael ei ddarparu i gefnogi mynediad i gyngor cyfreithiol, cynrychiolaeth a chyfryngu ac i hwyluso system cyfiawnder teuluol effeithlon drwy gyllido cleientiaid cymwys yn effeithiol. Yn dilyn cyhoeddi *Legal Aid Reform: the Way Ahead*[3] mae gennym lasbrint clir ar gyfer sut mae caffael y gwasanaethau hyn yn y dyfodol. Rhaid i'r gwasanaethau hyn gael eu cyflwyno o fewn y gyllideb a bennir gan y Llywodraeth, ac i'r perwyl hwn mae rhoi diwygiadau effeithiol ac amserol i drefniadau caffael ar waith yn sylfaenol.

> Yn 2005/06, gwariodd yr LSC ryw chwarter o'i gyllideb cymorth cyfreithiol - £570 miliwn – ar waith teuluol. Gadawodd hyn iddo ariannu Help Cyfreithiol i ychydig dros 280,000 o achosion teuluol a 130,000 o dystysgrifau pellach am Help Teuluol Cymeradwy a Chynrychiolaeth Gyfreithiol.

Mae'r system cyfiawnder teuluol yn gymhleth, gydag amrywiaeth o randdeiliaid y mae eu camau yn cael effaith ariannol ar y gyllideb cymorth cyfreithiol. Rhaid i'r LSC ymgysylltu'n briodol â'r rhanddeiliaid hyn er mwyn gwneud yn siŵr bod pob rhan

[1] *Making Legal Rights a Reality: the Legal Service Commission's Strategy for the Community Legal Service*, Mawrth 2006
[2] *Legal Aid: A market-based approach to reform* – Adolygiad yr Arglwydd Carter o Gaffael Cymorth Cyfreithiol, Gorffennaf 2006
[3] *Legal Aid Reform: the Way Ahead*, Tachwedd 2006

berthnasol o'r system cyfiawnder teuluol yn gweithio gyda'i gilydd i gyflwyno gwasanaethau effeithiol, sy'n uchafu potensial canlyniadau cadarnhaol, yn gyson i bob cleient.

Wrth geisio gwneud hyn rydym yn cydnabod cyflawniadau sylweddol ein darparwyr yn ystod y chwe blynedd diwethaf wrth gyflwyno gwasanaethau ansawdd da i gleientiaid. Byddwn yn parhau i weithio mewn partneriaeth â chyflenwyr dewisol ac eraill i gyflwyno'r gwasanaethau ansawdd uchel mae cyfreithwyr cymorth cyfreithiol a'r LSC wedi ymrwymo i'w darparu i gleientiaid.

Adran Un

Cyd-destun a Chymhellion dros Gamau Strategol

1.1 Mae'r adran hon yn rhoi crynodeb o'r dadansoddiad o:

- Yr angen am gyngor cyfreithiol teuluol
- Cyflenwad a chost cymorth cyfreithiol teuluol
- Sut a pham mae'r system cyfiawnder teuluol ehangach yn effeithio ar gost a chyflenwad cymorth cyfreithiol teuluol

1.2 Mae gwybodaeth fanwl am yr holl faterion hyn ynghyd â dadansoddiad ohonynt i'w gweld yng Nghyfrol Dau o'r strategaeth hon, *Trosolwg o Wasanaethau Cyfreithiol Teuluol.*

Yr angen am gyngor cyfreithiol teuluol

1.3 Cymorth cyfreithiol teuluol yw 58% o'r holl wariant rheoledig a thystysgrifedig ar gymorth cyfreithiol sifil. Mae'r angen am y cyfryw gyngor wedi ei ddadansoddi gan sawl ymchwiliad yn y blynyddoedd diwethaf, drwy adroddiad *Paths to Justice*[4], arolwg *Causes of Action* y Ganolfan Ymchwil Gwasanaethau Cyfreithiol (LSRC)[5] ac adroddiad ymchwil y Gwasanaeth Cyngor a Gwybodaeth i Deuluoedd (FAInS)[6]. Mae pob un o'r rhain wedi nodi cymhlethdod problemau mae cleientiaid teuluol yn aml yn eu dioddef.

> "Mae'r ystod o anghydfodau sy'n dod o fewn cylch gwaith cyfreithwyr teulu wedi ffrwydro yn y blynyddoedd diwethaf. Tra bod y llysoedd wedi ymddiddori fwyfwy mewn monitro prosesau penderfynu awdurdodau lleol, maent hefyd yn pryderu llawer mwy am chwalu teuluoedd a'i ganlyniadau."

1.4 Yn aml bydd teuluoedd yn dioddef problemau mewn clystyrau, fel y rhai sy'n codi o gamdriniaeth ddomestig, ysgaru a chwalu perthynas yn gyffredinol. Ar ben hynny, mwyaf o broblemau y bydd cleient yn eu dioddef mwyaf agored y byddant i rai newydd: problemau teuluol yn aml sy'n sbarduno problemau mewn perthynas â dyledion, budd-daliadau lles a thai.[7]

1.5 Mae ymchwil defnyddwyr gan yr Adran Materion Cyfansoddiadol (DCA)[8] a chan LSC wedi dangos bod teuluoedd sy'n mynd drwy chwalu perthynas yn cael y system yn anodd ei mordwyo wrth chwilio am help. Cadarnhaodd y

[4] *Paths to Justice – What people do and think about going to law*, Hazel Genn (1999)
[5] *Causes of Action: Civil Law and Social Justice*, Pascoe Pleasence, A Buck, N Balmer, A O'Grady, H Genn, M Smith (2004)
[6] I'w chyhoeddi Gwanwyn 2007
[7] Dangosodd adroddiad FAInS fod gan un o bob chwech o gleientiaid FAInS bryderon am ddyled, budd-daliadau lles neu dai
[8] Strategaeth Defnyddwyr yr Adran Materion Cyfansoddiadol Cyfrol 3 - Relationship Breakdown, 2004

canlyniadau ganfyddiadau *Causes of Action*[9] nad yw pwyntiau cyswllt cyntaf yn aml yn cyfeirio cleientiaid ymlaen i'r lle mwyaf priodol.

1.6 Dywedodd cleientiaid y byddent yn gwerthfawrogi cael mynediad at wasanaethau cyn gynted â phosibl mewn un lle, ynghyd â gwasanaethau cymorth eraill. Roeddent hefyd am i wasanaethau gael eu darparu dros y Rhyngrwyd a'r ffôn yn ogystal ag wyneb-i-wyneb. Mae cleientiaid yn gwerthfawrogi'r cyfle i aros yn ddienw ac yn aml gallant gael y wybodaeth a'r gefnogaeth mae arnynt ei hangen heb gyngor cyfreithiol wyneb-i-wyneb. Gall gwasanaethau ffôn a Rhyngrwyd fod yn ddefnydd mwy priodol ar adnoddau cyfyngedig, yn ogystal ag yn ffordd effeithiol o ddarparu gwybodaeth ac addysg am hawliau a chyfrifoldebau cyfreithiol.

- "Byddai'n beth da cael un pwynt cyswllt ar gyfer yr holl faterion sy'n ymwneud â chwalu perthynas."
- "Dylid cael un lle sy'n ymdrin â chwalu perthynas yn unig. Mae gormod o leoedd gwahanol."
- "Byddai'n ddefnyddiol iawn i bobl ar ddechrau'r broses i gael rhywun ar ben arall y ffôn."

A Study into the information and support needs of people experiencing relationship breakdown and family disputes gan Promise i'r LSC, Mehefin 2004

1.7 Mae rhai cleientiaid teuluol yn arbennig o agored i allgau cymdeithasol ac mae'n bwysig bod blaenoriaeth yn cael ei rhoi i ddarparu'r gwasanaethau cyngor mae arnynt hwy eu hangen. Mae gan y math o deulu effaith hefyd ar debygolrwydd cleient i ddioddef problemau, gyda rhieni sengl yn debycach o gael problemau na rhieni sydd mewn perthynas.

1.8 Mae plant yn arbennig mewn risg o niwed o chwalu perthynas gyda gwrthdaro mawr; mae llawer naill ai'n dyst i gamdriniaeth ddomestig neu'n ei dioddef eu hunain, a all gael effaith hirdymor ar ddatblygiad emosiynol. Camdriniaeth yn y cartref yw un o'r mathau o broblem sydd leiaf tebygol o arwain at weithredu gan y cleient ac mae'n hanfodol trefnu bod cyngor cyfreithiol i'r rheiny sy'n dioddef y problemau hyn yn fwy hygyrch.

1.9 Mae'n debycach y bydd anghenion addysgol arbennig ar blant sy'n cael eu cymryd i ofal. Mae llawer ohonynt heb fynediad i'r gefnogaeth a'r cyngor mae arnynt eu hangen wrth ymadael â gofal[10], gan eu gwneud yn arbennig o agored i allgau cymdeithasol neu mewn risg o ymddygiad troseddol. Mewn llawer o achosion gall cefnogaeth gan yr awdurdod lleol perthnasol ymdrin â'r materion hyn ac mae cyngor cyfreithiol arbenigol yn arf effeithiol i sicrhau bod awdurdodau'n cydymffurfio â'u rhwymedigaethau.

1.10 Mae rhieni y mae eu plant yn destun achosion gofal yn aml wedi cael eu cam-drin eu hunain yn blant[11] ac mae gan lawer ohonynt anawsterau dysgu neu

[9] Op. Cit.
[10] *Care Matters: Transforming the Lives of Children and Young People in Care,* Hydref 2006
[11] *Review of the Child Care Proceedings System in England & Wales* (DfES & DCA), Mai 2006

broblemau iechyd meddwl. Mae'n dilyn bod y rhieni hyn yn flaenoriaeth arbennig am gyngor cyfreithiol yn ogystal â'u plant.

1.11 Mae Plant Di-gwmni sy'n Ceisio Lloches (UASC) yn blant sydd heb unrhyw oedolyn sy'n berthynas neu'n warcheidwad iddynt yn y DU, ac y mae'n debygol bod arnynt anghenion cymhleth sy'n gofyn am gyngor ansawdd da ar draws nifer o gategorïau o'r gyfraith, gan gynnwys mewnfudo, budd-daliadau lles a gweithrediadau o dan y gyfraith gyhoeddus.

> Ar 31 Mawrth 2005, roedd 2,900 o USAC yn derbyn gofal yn Lloegr. Roedd y mwyafrif llethol (69%) wedi eu lleoli yn Llundain, gydag 16% arall wedi eu lleoli mewn mannau eraill yn Ne-ddwyrain Lloegr.
>
> *Ystadegau Cenedlauthol, Mawrth 2005*

1.12 Bydd sicrhau bod gan yr holl grwpiau cleientiaid hyn fynediad i gyngor cyfreithiol arbenigol integredig yn flaenoriaeth i'r LSC yn ystod y pum mlynedd nesaf.

Y cyflenwad gwasanaethau cymorth cyfreithiol teuluol

1.13 Mae gwaith gan y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol wedi dangos mai'r procsi mwyaf effeithiol ar gyfer rhagweld yr angen am gyngor teuluol yw'r gyfran o gleientiaid sy'n gymwys i dderbyn budd-daliadau'r wladwriaeth sy'n rhoi'r hawl iddynt yn awtomatig fod yn gymwys yn ariannol i gael cymorth cyfreithiol, sef ar hyn o bryd Cymorth Incwm, Lwfans Ceisio Gwaith ar Sail Incwm a Chredyd Gwarantedig Pensiwn y Wladwriaeth.

1.14 Yn ogystal, mae ymchwil yr LSRC bellach yn rhoi ystadegau cenedlaethol ar amlder problemau cyfreithiol yn y boblogaeth gyffredinol. Er enghraifft, mae'n dangos bod rhieni sengl yn ystadegol yn debycach nag eraill i ddioddef problemau teuluol a phroblemau cyfreithiol cysylltiedig. Rydym felly wedi cynhyrchu fformiwla ariannu sy'n cymryd i ystyriaeth yr angen am wasanaethau ar sail incwm (gan dargedu adnoddau at y cleientiaid tlotaf) a, lle bo'n bosibl, cyfradd fynychder debygol problemau o fewn ardal.

1.15 Mae dadansoddi'r sylfaen ddarparwyr bresennol yn erbyn y procsi hwn yn dangos bod lefel dda o fynediad i gyngor cyfreithiol teuluol, gyda 93% o'r boblogaeth yn byw o fewn pum milltir i gyfreithiwr teuluol, ac rydym wedi ymrwymo i gynnal mynediad priodol. Serch hynny, mae'r ddarpariaeth bresennol yn dameidiog gyda dim ond 18% o gwmnïau sydd â chontract teuluol yn cynnig math arall o gyngor a chymorth sifil o dan gontract arbenigol. Gan hynny, mae angen sicrhau darpariaeth fwy integredig.

1.16 Mae'n bwysig hefyd i'r LSC allu deall yn fanylach y math penodol o ddarpariaeth deuluol o fewn contract er mwyn sicrhau bod pob agwedd ar y clwstwr teuluol ar gael i gleientiaid a bod yr angen am gyngor a'r cyflenwad o gyngor mewn meysydd blaenoriaeth (fel camdriniaeth ddomestig) yn cael eu deall a'u bodloni'n briodol.

1.17 Bydd yr LSC felly'n parhau i weithio gyda'r LSRC a grwpiau rhanddeiliaid sy'n cynrychioli cleientiaid sydd mewn risg penodol er mwyn deall yr angen am fathau gwahanol o gyngor a sut y gellid diwallu'r anghenion hynny'n well. Byddwn yn cyhoeddi mwy o fanylion am ein targedau arfaethedig am fynediad i gyngor cyfreithiol yn hwyrach yn y flwyddyn, yn ogystal â'r data rydym wedi ei ddefnyddio i'w datblygu. Byddwn yn gwneud hyn yn flynyddol o hyn ymlaen.

1.18 Mae darpariaeth gwasanaethau cymorth cyfreithiol yn y dyfodol yn dibynnu ar annog cyfreithwyr ifanc i ymgymryd â gwaith cymorth cyfreithiol, yn enwedig mewn meysydd fel achosion gofal plant y gyfraith gyhoeddus lle mae nifer yr arbenigwyr sy'n aelodau o'r Panel Plant yn lleihau. Gall ymadawyr ifanc â gofal ei chael yn arbennig o anodd cael mynediad i gyngor cyfreithiol arbenigol ac felly bydd yn bwysig parhau i ddefnyddio cynllun contract hyfforddiant yr LSC a'r Cwrs Ymarfer Cyfreithiol cymorth cyfreithiol i annog cyfreithwyr newydd i weithio yn y meysydd pwysig hyn o'r gyfraith.

Cost gwasanaethau cymorth cyfreithiol teuluol

1.19 Mae cost cymorth cyfreithiol teuluol wedi codi, yn anghymesur i'r cynnydd mewn cyfaint ers 2002/03. Mae gwariant ar achosion gofal plant y gyfraith gyhoeddus wedi codi fwyaf, gyda'r codiadau mewn ffioedd cwnsleriaid, treuliau a chostau cyfreithwyr i gyd yn cynyddu uwchlaw chwyddiant.

Rhwng 2004/05 a 2005/06 cododd cyfaint yr achosion Deddf Plant Arbennig gan 6.5% a chododd cost yr achosion hyn gan 21.6%. Dros yr un cyfnod cododd cyfaint yr achosion cyfraith breifat gan 1.9% yn unig o'i gymharu â chynnydd mewn cost o 7.4%.

1.20 Ffioedd arbenigwyr yw cyfran sylweddol o'r treuliau, yn enwedig ffioedd arbenigwyr meddygol, y mae eu tystiolaeth yn cael ei defnyddio'n gynyddol i gynorthwyo penderfyniadau barnwrol mewn achosion y gyfraith gyhoeddus a'r gyfraith breifat. Rhwng 2004/05 a 2005/06, cododd cost treuliau mewn achosion y Ddeddf Plant Arbennig gan 28.9% i fwy nag £28m ac mewn achosion y gyfraith breifat gan 19.7% i fwy na £13m. Mae prinder arbenigwyr mewn rhai ardaloedd wedi cyfrannu hefyd at oedi ac felly at gynnydd mewn costau achos, yn ogystal â chodi pris llawer o arbenigwyr meddygol sy'n gallu codi cyfraddau'r farchnad am eu gwasanaethau.

1.21 Mewn achosion y gyfraith breifat mae yna gyfle i newid ffocws y gwariant ar ddulliau llai gwrthwynebus o ddatrys anghydfodau, yn enwedig mewn achosion cyswllt â phlant. Amlygodd adolygiad diweddar o werth am arian gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol (NAO)[12] y gall cyfryngu fod yn fwy cost-effeithiol nag atebion drwy gyfreitha; mae cleientiaid yn gwerthfawrogi cyfryngu a byddai'n braf gan rai ei gael yn ddewis. Mae *Rhaglen Cyfraith Breifat*

[12] *Legal aid and mediation for people involved in family breakdown* – Adroddiad Gwerth am Arian gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol i'w gyhoeddi yn y Gwanwyn 2007

Llywydd yr Adran Teuluoedd[13], gyda'i ffocws ar gymodi yn y llys, yn gyfle arall i annog ateb anwrthwynebus yn y mathau hyn o achosion.

1.22 Bu cynnydd yn y math o achosion cyfraith deuluol arbenigol fel cipio plant[14] a phenodiadau Rheol 9.5 mewn achosion cyswllt o wrthdaro mawr. Yn ogystal cafwyd deddfwriaeth sylweddol ym maes teuluoedd, gan gynnwys Deddf Plant a Mabwysiadu 2006, Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002, Deddf Partneriaethau Sifil 2004, Deddf Troseddau a Dioddefwyr Trais Domestig 2004. Mae gan y rhain i gyd botensial i roi pwysau ychwanegol ar y gyllideb cymorth cyfreithiol.

1.23 Gan hynny mae'n bwysig bod yr LSC yn drylwyr wrth reoli cost cymorth cyfreithiol, er mwyn i'r adnoddau cyfyngedig sydd ar gael ganolbwyntio ar feysydd lle gall cyngor cyfreithiol arbenigol wneud y gwahaniaeth mwyaf i gleient, ac ar ddarparu mynediad cyson i bob cleient sy'n flaenoriaeth. Rhaid i ni sicrhau yn ogystal nad yw adnoddau cymorth cyfreithiol yn cael eu gwyro i gyllido gweithgareddau y tu allan i briod gylch gwaith yr LSC.

Effeithiau ar y system cyfiawnder teuluol ehangach

1.24 Gall materion sy'n codi wrth weithredu'r system cyfiawnder teuluol effeithio hefyd ar y gyllideb cymorth cyfreithiol. Er enghraifft, gall gohirio ac oedi yn y llys arwain at amser aros gormodol neu bartïon yn gorfod ymddangos sawl gwaith, sy'n ychwanegu at gost achosion.

1.25 Yn y Gyfraith Gyhoeddus bu cynnydd mewn achosion brys ac mewn achosion sy'n dod gerbron y llysoedd heb (ym marn y llysoedd) baratoi'n ddigonol i ganiatáu penderfyniad. Mae difrifoldeb yr achosion hyn a gofynion y Ddeddf Hawliau Dynol wedi cynyddu cymhlethdod gwneud penderfyniadau i farnwyr ac mae dibyniaeth ar adroddiadau arbenigwyr lluosog. Gall yr adroddiadau hyn fod yn gostus ac nid yw bob amser yn glir sut maent yn cyfrannu at ganlyniad achos. Mae'r Prif Swyddog Meddygol wedi nodi'r ddiweddar allan o 28,687 o achosion, mewn dim ond 26 ohonynt yr oedd penderfyniad y llys yn dibynnu ar dystiolaeth feddygol a ddadleuwyd.[15]

> Mewn un enghraifft lle cyfarwyddodd llys asesiad preswyl, cymeradwyodd y llys wedyn ail asesiad am gyfanswm cost o £100,000 yr oedd dau draean ohoni i'w thalu gan y cleientiaid a ariannwyd ac felly o'r gyllideb cymorth cyfreithiol.

1.26 Mae gorchmynion yn parhau i gael eu gwneud am asesiadau preswyl, a all gymryd mwy na'r cyfartaledd o 12 wythnos a argymhellir gan benderfyniad Tŷ'r Arglwyddi yn Re G yn 2005[16] ac yn cynnwys gwaith a allai gael ei ystyried yn

[13] *The Private Law Programme: Guidance issued by the President of the Family Division*, Ionawr 2005
[14] *Gwneud Hawliau Cyfreithiol yn Realiti i Blant a Theuluoedd: Strategaeth y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol dros gymorth cyfreithiol teuluol: Cyfrol Dau – Trosolwg o Wasanaethau Cyfreithiol Teuluol*, t. 27
[15] *Bearing Good Witness – Proposals for reforming the delivery of medical expert evidence in family law cases*. Adroddiad gan y Prif Swyddog Meddygol, Hydref 2006
[16] Re G [2005] UKHL 68

driniaeth neu'n therapi, nid asesiad. Mewn rhai achosion mae'n ymddangos mai ychydig yn unig, neu ddim, gostyngiad sy'n cael ei wneud am unrhyw gostau y byddai'r awdurdod lleol fel arall wedi'u talu am leoli'r plentyn. Mae'r mwyafrif o unedau preswyl yn gwadu bod unrhyw elfen driniaeth neu therapiwtig i'r gwaith maent yn ymgymryd ag ef (er gwaethaf cynnwys eitemau fel dosbarthiadau rheoli dicter a grwpiau therapi teuluol), heb roi dadansoddiad manwl. Ar y cyfan bydd y llys yn derbyn hyn. Mae'r LSC yn haeru bod llawer o'r gwaith hwn yn therapiwtig ei natur ac na ddylai'r costau ddod i ran y gyllideb cymorth cyfreithiol. Prin yw'r dystiolaeth bod yr asesiadau hyn yn ychwanegu gwerth digonol at y broses gyfreithiol i gyfiawnhau'r costau a'r oedi.

1.27 Mewn achosion Rheol 9.5[17], pan nad yw'r Gwasanaeth Cynghori a Chynorthwyo Llys i Blant a Theuluoedd (CAFCASS) yn dyrannu gwarcheidwad, bydd barnwyr yn aml yn gorchymyn bod cyfreithiwr yn cael ei benodi'n warcheidwad. Mae hyn yn golygu bod costau cymorth gwaith cymdeithasol i'r plentyn hefyd yn dod i ran y Gronfa, am y bydd y cyfreithiwr yn prynu'r arbenigedd hwnnw i mewn ac yn codi'r tâl ar y Gronfa fel un o'i dreuliau.

1.28 Er bod camau rhanddeiliaid eraill yn gallu effeithio ar gostau, nid oes amheuaeth bod y system wrthwynebus bresennol yn gyfrannwr mawr, am fod angen cynrychiolaeth ar wahân ar bob parti. Gan fod pob parti'n derbyn cymorth cyfreithiol mewn llawer o achosion, mae cost yr achosion hynny i'r gronfa yn debygol o fod yn sylweddol, yn enwedig mewn achosion y gyfraith gyhoeddus lle gall fod partïon lluosog.

1.29 Er nad rôl yr LSC o reidrwydd yw pwyso am newidiadau mewn deddfwriaeth sylfaenol, diwygio'r system gyfan fydd yr unig ffordd o gyfyngu'n sylweddol ar gostau a gwella'r canlyniadau i gleientiaid. Bydd Adran Pedwar yn trafod ein hymagwedd ni at hyn.

1.30 Yn y tymor byr mae gan yr LSC nifer o fecanweithiau dros newid. Mae adolygiad Carter[18] wedi amlinellu rhai argymhellion allweddol o ran cymorth cyfreithiol teuluol, sy'n cynnwys:

- Gwerthusiad gofalus o wasanaethau teuluol o fewn cynlluniau peilot Canolfannau Cyngor Cyfreithiol Cymunedol (CLAC) i lywio sut orau i brynu gwasanaethau cyngor cyfreithiol teuluol integredig
- Ymchwilio i'r cyfle am gynyddu darpariaeth o fewn y sector dielw
- Datblygu cynlluniau ffioedd safonol cyn datblygu tendro gwerth gorau ar lefel yr awdurdod lleol
- Teilwra maint a hyd contractau yn ôl ansawdd a darpariaeth y gwasanaeth

1.31 Cyn hyn, tynnodd yr Adolygiad o Achosion Gofal [19] sylw at y potensial i fwy gael ei wneud i gynnwys teuluoedd mewn trafod pryderon awdurdodau lleol yn gynt (er enghraifft drwy ddarparu cyngor cyn-achos), gyda'r nod o osgoi achosion yn gyfan gwbl lle bo'n bosibl neu'n ddymunol; sicrhau eu bod yn deall

[17] Achosion lle caiff plant gynrychiolaeth gyfreithiol ar wahân yn anghydfodau cyswllt eu rhieni
[18] Op. cit.
[19] Op. cit.

pryderon yr awdurdod lleol a sut mae'r broses yn gweithio; a bod dewisiadau eraill o ran gofal wedi cael eu hystyried lle bo'n bosibl cyn yr achos.

1.32 Mae'r ddwy adran nesaf yn amlinellu sut rydym yn bwriadu symud ymlaen gyda'r argymhellion hyn.

Adran Dau

Cleientiaid a Gwasanaethau

2.1 Mae'r adran hon yn amlinellu sut byddwn yn:

- Penderfynu ar flaenoriaethau ariannu
- Gwella mynediad i wasanaethau i'r rhai sy'n dioddef camdriniaeth ddomestig
- Contractio gyda phob darparwr i ddarparu gwasanaethau integredig
- Cynnal peilot o gyngor teuluol arbenigol dros y ffôn
- Datblygu Dangosyddion Perfformiad Allweddol ar y cyd â darparwyr ac adolygwyr sy'n gymheiriaid er mwyn monitro dilyn yr arfer gorau

Cleientiaid sy'n flaenoriaeth

2.2 Ein blaenoriaeth uchaf fydd plant sydd mewn perygl o'u cam-drin. Bydd ganddynt fynediad i'r ystod lawn o wasanaethau o wybodaeth i gynrychiolaeth. Ein blaenoriaeth isaf fydd oedolion heb blant dibynnol sy'n chwilio am ysgariad heb ei amddiffyn ac yn y pen draw mae'n bosibl y cyfyngir y cyngor hwn i gyngor neu wybodaeth dros y ffôn am sut i gynnal eu hysgariad eu hun.

2.3 Mae'r fframwaith isod yn amlinellu pwy yw'n cleientiaid sy'n flaenoriaeth, pa feysydd y gyfraith mae arnynt angen cyngor amdanynt fwyaf a pha wasanaethau fydd ar gael. Dangosir y meysydd a'r gwasanaethau sy'n flaenoriaethau uchaf mewn coch, rhai canolig mewn ambr a'r rhai isel mewn gwyrdd. Mae 'Agored i Niwed' yn y cyd-destun hwn yn cyfeirio at rieni ac oedolion gyda phroblemau iechyd meddwl neu anableddau dysgu.

Cleient sy'n Flaenoriaeth	Mater				
	Camdriniaeth Ddomestig	Cyfraith Gyhoeddus Deddf Plant	Cyfraith Breifat Deddf Plant	Arian/ Eiddo	Ysgariad heb ei Amddiffyn
Plant a Phobl Ifanc	Gwybodaeth Cyngor dros y ffôn, Cynrychiolaeth	Gwybodaeth Cyngor dros y ffôn, Cynrychiolaeth	Gwybodaeth Cyngor dros y ffôn, Cyfryngu Cynrychiolaeth	Dd/B	Dd/B
Rhieni sy'n Agored i Niwed	Gwybodaeth Cyngor dros y ffôn, Cynrychiolaeth	Gwybodaeth Cyngor dros y ffôn, Cynrychiolaeth	Gwybodaeth Cyngor dros y ffôn, Cynrychiolaeth Cyfryngu	Gwybodaeth Cyngor dros y ffôn, Cynrychiolaeth Cyfryngu	Gwybodaeth Cyngor dros y ffôn, Cynrychiolaeth Cyfryngu
Oedolion sy'n Agored i Niwed heb blant dibynnol	Gwybodaeth Cyngor dros y ffôn, Cynrychiolaeth	Dd/B	Dd/B	Gwybodaeth Cyngor dros y ffôn, Cynrychiolaeth	Gwybodaeth Cyngor dros y ffôn, Cynrychiolaeth
Rhieni	Gwybodaeth Cyngor dros y ffôn, Cynrychiolaeth	Gwybodaeth Cyngor dros y ffôn, Cyngor Cyn-achos Cynrychiolaeth	Gwybodaeth Cyngor dros y ffôn, Cyfryngu	Gwybodaeth Cyngor dros y ffôn, Cyfryngu	Gwybodaeth Cyngor dros y ffôn
Oedolion heb blant dibynnol	Gwybodaeth Cyngor dros y ffôn, Cynrychiolaeth	Dd/B	Dd/B	Gwybodaeth Cyngor dros y ffôn, Cyfryngu	Gwybodaeth Cyngor dros y ffôn

2.4 Er y bydd amrywiadau lleol bob tro (er enghraifft, mewn ardaloedd awdurdodau lleol y mae ganddynt ganolfannau derbyn penodol i geiswyr lloches, mae'n bosibl y bydd angen gwasanaethau integredig fel blaenoriaeth am blant dan oed digwmni sy'n ceisio lloches), dylai'r fframwaith hwn ddarparu arweiniad amlinell i'r Comisiwn flaenoriaethu dyraniad arian mewn ardal benodol. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru (LICC) wedi amlinellu ei blaenoriaethau ei hun, y bydd y rheiny sy'n comisiynu gwasanaethau yng Nghymru yn gallu eu cymryd i ystyriaeth o fewn y fframwaith cyffredinol hwn.

2.5 Nid oes unrhyw gynigion presennol i symud unrhyw faes blaenoriaeth isel o gwmpas cymorth cyfreithiol yn gyfan gwbl, yn hytrach i ddarganfod dulliau mwy cost-effeithiol o gyflwyno'r mathau hynny o wasanaeth. Serch hynny, os na chaiff costau eu cyfyngu neu rydym am ailgyfeirio adnoddau i adlewyrchu newidiadau mewn blaenoriaethau, gall fod angen edrych ar symud meysydd (fel rhyddhad ategol ac ysgariad heb ei amddiffyn) rhag cwmpas cymorth cyfreithiol teuluol er mwyn amddiffyn gwasanaethau i gleientiaid sy'n flaenoriaeth. Gan fod materion teuluol yn codi'n aml ar y cyd â phroblemau eraill, byddai'n rhaid cymryd gofal i osgoi gadael mewn risg cleientiaid sy'n debygol o ddioddef camdriniaeth ddomestig na thynnu gwasanaethau'n ôl rhag y rhai sydd fel arall yn arbennig o agored i niwed.

2.6 Mewn gwirionedd, byddwn yn cynyddu mynediad i wasanaethau camdriniaeth ddomestig drwy well darpariaeth gwybodaeth a thrwy gontractio am wasanaethau i'w darparu mewn ffyrdd gwahanol. Mae rhywfaint o dystiolaeth nad yw rhai gweithwyr cynghori sy'n gweithio gyda dioddefwyr camdriniaeth ddomestig yn ymwybodol o argaeledd gwaharddebau sifil a ariennir yn gyhoeddus a byddwn yn datblygu cynigion i godi ymwybyddiaeth o wasanaethau cymorth cyfreithiol ymhlith y rheiny sy'n gweithio gyda dioddefwyr camdriniaeth ddomestig.

2.7 Byddwn yn contractio'n benodol am ddarpariaeth cyngor a chynrychiolaeth i ddioddefwyr camdriniaeth ddomestig lle maent debycaf o allu eu defnyddio.

Amlinellodd yr adran flaenorol bwysigrwydd darparu gwasanaethau yn y modd hwn a byddwn yn gweithio gyda'r asiantaethau a grwpiau defnyddwyr perthnasol i nodi sut orau i wneud hyn. Er enghraifft, gallai gwasanaethau gael eu darparu mewn llochesi neu ynghlwm wrth un o'r llysoedd trais domestig arbenigol.[20]

2.8 Byddwn yn parhau i gadw llygad ar ddyfodol gwasanaethau blaenoriaeth is er mwyn sicrhau ein bod yn bodloni'n blaenoriaethau uchaf yng ngoleuni'n hymrwymiad i gynyddu mynediad i wasanaethau i gleientiaid sy'n dioddef camdriniaeth ddomestig o fewn y gyllideb sydd ar gael.

Gwasanaethau

2.9 Bydd disgwyl i bob darparwr cymorth cyfreithiol teuluol dan gontract gynnig yr ystod lawn o wasanaethau cyngor gan gynnwys cyngor cyfreithiol cynnar. Dylai pob darparwr allu cynnig gwasanaethau'r gyfraith gyhoeddus a'r gyfraith breifat, ond mewn rhai meysydd neu amgylchiadau gall fod angen i ddarparwr ganolbwyntio ar ddarparu'r naill neu'r llall. Ond p'un a fydd y gwasanaeth teuluol a gynigir yn wasanaeth cyfraith breifat neu gyhoeddus, bydd disgwyl i bob darparwr allu dangos eu bod yn gallu ymdrin ag anghenion cysylltiedig am gyngor cyfreithiol yng nghategorïau lles cymdeithasol y gyfraith. Gall hyn fod naill ai drwy gynnig y gwasanaethau hynny eu hunain neu drwy feddu ar fecanweithiau cyfeirio effeithiol i ddarparwyr cyfraith lles cymdeithasol integredig (er enghraifft llinell ffôn yn eu swyddfa sy'n caniatáu i gleientiaid ffonio CLS Direct).

2.10 Bydd disgwyl i ddarparwyr y gyfraith breifat gynnig yr ystod lawn o wasanaethau sy'n adlewyrchu clwstwr teuluol y gyfraith breifat (camdriniaeth ddomestig, chwalu perthynas, cyswllt/preswylfan a chyngor ar anghydfodau arian ac eiddo). Bydd disgwyl i gyfreithwyr sy'n darparu cyngor mewn achosion gofal gynnig cyngor cyn-achos a chan hynny ni fydd LSC yn cynnig contractau trwydded-yn-unig mwyach [21].

2.11 Rydym yn rhagweld mai cyfreithwyr ymarfer preifat fydd prif ddarparwyr gwasanaethau cymorth cyfreithiol teuluol o hyd, ond bydd yr LSC yn parhau i archwilio darpariaeth drwy ddarparwyr di-elw a strwythurau busnes eraill. Mae hyn yn dilyn argymhelliad 3.4 o adroddiad Carter [22].

Gwasanaethau cenedlaethol / rhanbarthol arbenigol

2.12 Efallai y bydd ar grwpiau cleientiaid penodol fel UASC neu bobl ifanc sy'n ymadael â gofal angen am wasanaethau arbenigol nad oes modd eu darparu'n lleol ym mhob ardal. O dan yr amgylchiadau hyn mae'n bosibl yr ystyriwn

[20] Os caiff llysoedd trais domestig integredig (IDVCs) eu cyflwyno y tu hwnt i'r un cyntaf sydd ar waith ar hyn o bryd yn Croydon, gall fod potensial i weithio yn y fforwm hwn. Mae IDVC yn llys lle cynhelir materion troseddol a sifil mewn perthynas ag un teulu lle mae camdriniaeth ddomestig yn ystyriaeth gerbron yr un barnwr

[21] Contract yw hwn lle bydd darparwr ond yn cynnig cynrychiolaeth yn y llys ac nid yw'n gwneud gwaith help cyfreithiol (cyngor cychwynnol). Cynhwysir y ddarpariaeth hon o fewn y cynigion am gontractau unedig

[22] Op. cit., t.62

dendro am wasanaethau ar lefel genedlaethol neu ranbarthol yn hytrach nag ar lefel yr awdurdod lleol. Rydym yn cydweithio ar hyn o bryd â'r Swyddfa Gartref i archwilio'r rhan a ddylai fod gan gyfreithwyr Plant, y Gyfraith Gyhoeddus a Gofal Cymunedol wrth ymdrin ag UASC a'u cynrychioli, ac yn ymchwilio i'r potensial am drefniadau contractio neilltuedig mewn mannau penodol.

Gwasanaethau cyfryngu

2.13 Ar hyn o bryd nid oes gennym unrhyw gynigion i symud tuag at dendro am wasanaethau cyfryngu ac am y dyfodol uniongyrchol byddwn yn parhau i gontractio â chyflenwyr cyfryngu fel y gwnawn ar hyn o bryd. Ceir cynigion am sut byddwn yn ariannu hyn yn y papur ymgynghori ar ffioedd a gyhoeddwyd ym Mawrth 2007. Yn dilyn argymhellion y Swyddfa Archwilio Genedlaethol[23] byddwn yn datblygu'n dealltwriaeth o effeithiolrwydd cyfryngu drwy ddatblygu mesurau perfformiad a fydd yn edrych ar gyfraddau trosi cyfryngu a chanlyniadau i gleientiaid ar draws y wlad.

2.14 Wrth i arferion amlddisgyblaeth ddatblygu yn dilyn deddfu'r Mesur Diwygio Gwasanaethau Cyfreithiol, rhagwelwn y bydd gwasanaethau cyfryngu efallai'n cael eu hintegreiddio gan ddarparwyr mwy o faint â darpariaeth gwasanaethau eraill, ac os felly efallai yr ystyrir tendro gwerth gorau am wasanaethau cyfryngu.

Gwasanaethau ffôn

2.15 Byddwn yn cynnal peilot o ddarpariaeth cyngor cyfreithiol teuluol arbenigol drwy gyfrwng CLS Direct.

2.16 Bydd y peilot yn canolbwyntio ar archwilio'r dewisiadau o ran ychwanegu gwasanaeth teuluol arbenigol at CLS Direct i atgyfnerthu'r gyfres o wasanaethau gwaith achos arbenigol a gynigir ar hyn o bryd. Bydd pwyslais ar gyfeirio'r cleientiaid y mae arnynt angen wybodaeth neu gefnogaeth bellach cyn penderfynu pa ddewis maent am fynd ar ei drywydd at y ffynonellau priodol. Lle bo risg o niwed, neu lle bo'r achos o dan y gyfraith gyhoeddus wedi dechrau, caiff cleientiaid eu cyfeirio at arbenigwr wyneb-i-wyneb ar unwaith.

2.17 Cafodd y broses tendro am ddarparu'r gwasanaeth hwn ei lansio ar 19 Chwefror 2007 a bydd yn rhedeg tan 30 Mawrth 2007. Fe welir y dogfennau tendro ar wefan LSC: http://www.legalservices.gov.uk/civil/tendering_opportunities.asp

Ansawdd

2.18 Byddwn yn parhau i sicrhau ansawdd drwy adolygiad gan gymheiriaid a byddwn yn gweithio gyda'r adolygwyr cymheiriaid teuluol i ddatblygu dulliau o fesur yn fwy cywir cydymffurfio â gofynion Protocolau Arfer Gorau Cymdeithas y Gyfraith yn y gyfraith breifat a'r gyfraith gyhoeddus. Byddwn yn datblygu cyfres o ddangosyddion perfformiad allweddol wedi eu seilio'n rhannol ar y mesuriadau hyn, ac ar y canlyniadau rydym yn dymuno eu prynu ar ran

[23] *Legal aid and mediation for people involved in family breakdown 2007* (NAO), Mawrth 2007

cleientiaid. Caiff y dangosyddion eu datblygu ar y cyd ag ymarferwyr ac adolygwyr cymheiriaid.

2.19 Mae barn darparwyr yn amhrisiadwy wrth ddyfeisio adolygiadau cymheiriaid a dangosyddion perfformiad allweddol. Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda hwy mewn grwpiau cyfeirio rhanddeiliaid wrth i ni geisio gweithredu'r strategaeth hon.

Adran Tri

Caffael

3.1 Mae'r adran hon yn amlinellu'r cynigion canlynol:

- Ffioedd sefydlog am gyfreithwyr, arbenigwyr a bargyfreithwyr
- Un ffi am eiriolaeth
- Cyflwyno prawf 'defnydd effeithiol ar arian' mewn achosion y gyfraith gyhoeddus
- Rhagdybiaeth gryfach i gyfryngu mewn achosion y gyfraith breifat
- Tendro gwerth gorau am wasanaethau cyfreithiol teuluol

Ffioedd sefydlog

3.2 Yn *Legal Aid Reform: the Way Ahead* [24] derbyniodd y Llywodraeth argymhelliad yr Arglwydd Carter i ffioedd sefydlog gael eu gweithredu fel cam trosiannol tuag at gomisiynu gwasanaethau drwy dendro gwerth gorau. Ochr yn ochr â'r ddogfen hon rydym wedi cyhoeddi'n cynigion diwygiedig sy'n ymdrin â ffioedd cyfreithwyr a byddwn yn dechrau gweithredu'r cynigion terfynol o Hydref 2007 ymlaen, gan arwain yn y pen draw at ffioedd sefydlog am wrandawiadau terfynol mewn achosion y gyfraith breifat yn Ebrill 2008.

3.3 Byddwn hefyd yn datblygu cynigion i gyflwyno ffioedd sefydlog i dalu arbenigwyr meddygol ac arbenigwyr eraill. Lle bo angen byddwn yn gwella'n gwybodaeth am ansawdd a chost y gwasanaethau hyn. Yna byddwn yn datblygu ystod o ffioedd safonol am adroddiadau arbenigol gwahanol, yn ôl lefel yr arbenigedd sy'n cael ei ddefnyddio a maint a math y gwaith dan sylw.

3.4 Bydd yr ymagwedd hon yn ategu'r gwaith rydym yn ei wneud gyda'r Prif Swyddog Meddygol (CMO), yr Adran Materion Cyfansoddiadol, Gwasanaeth Llys Ei Mawrhydi a'r Adran Iechyd i nodi'r ffordd fwyaf priodol o gomisiynu barn feddygol arbenigol mewn achosion gofal drwy gyfrwng ymddiriedolaethau'r GIG, yn dilyn adroddiad y CMO a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2006.

3.5 Byddwn yn gosod cyfraddau am waith eiriol gan gyfreithwyr a bargyfreithwyr, a fydd yn darparu ar gyfer ailwampio Cynllun Ffioedd Graddedig Teuluoedd (FGF) i fargyfreithwyr, a ddaw i rym yn Ebrill 2008. Mae'n bwysig cydnabod rôl eiriolwyr sy'n gyfreithwyr a'r cyfreithwyr hynny sy'n cynnal eu heiriolaeth eu hun, ac rydym am ddatblygu un ffi i gwmpasu pob eiriol ni waeth pwy sy'n ei wneud.

Y Cod Cyllido

3.6 Byddwn yn parhau i adolygu'r Cod Cyllido yn rheolaidd er mwyn sicrhau ei fod yn adlewyrchu blaenoriaethau LSC am gyllid. Mae gan y Cod Cyllido rôl

[24] Op. cit.

hanfodol fel mecanwaith i lywio caffael wrth benderfynu cwmpas y gwasanaethau byddwn yn eu cyllido. O Hydref 2007 ymlaen bydd y Cod Cyllido yn pennu nad yw asesiadau preswyl yn dod o fewn cwmpas cymorth cyfreithiol. Mae ymgynghoriad ar wahân ar y newidiadau i'r Cod Cyllido sydd i'w weld ar wefan y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol (www.legalservices.gov.uk). Fel y nodwyd ynghynt, mae'r gofyniad i gyllido'r asesiadau hyn wedi ei osod ar y gyllideb cymorth cyfreithiol gan y llysoedd. Fel y nodwyd yn Adran Un, mae rhai elfennau o'r asesiadau hyn yn therapiwtig eu natur ac nid yw'n briodol talu am asesiadau o gyllideb gyfyngedig cymorth cyfreithiol.

3.7 Mewn achosion y gyfraith breifat mae'r prawf haeddiannau[25] am Help Teuluol yn ceisio adlewyrchu *Private Law Programme*[26] Llywydd yr Adran Blant drwy gyflwyno rhagdybiaeth gryfach mai datrys anghydfodau fod y dewis cyntaf i rieni sy'n dadlau dros drefniadau cyswllt, ac na ddylai cyllid am gynrychiolaeth am wrandawiad a ddadleuir gael ei roi nes bod pob ffurf briodol ar ddatrys anghydfod wedi eu ceisio. Er enghraifft, gall datrys anghydfod fod ar ffurf cyfryngu neu gymodi yn y llys a gynhelir gan swyddog CAFCASS neu CAFCASS Cymru. Mae manylion llawn hyn i'w gweld o fewn yr ymgynghoriad ar gynlluniau ffioedd a gyhoeddwyd ar 1 Mawrth 2007 ac ar gael yn www.legalservices.gov.uk.

3.8 Byddwn yn sicrhau na fydd cleientiaid agored i niwed yn cael eu gorfodi i mewn i setliadau amhriodol, yn enwedig lle bo honiadau o gamdriniaeth ddomestig. Bydd yr esemptiad rhag cyfryngu yn parhau lle bo gan geisydd ofn rhesymol camdriniaeth ddomestig gan ddarpar barti ac yn anfodlon ac yn ofni cymryd rhan mewn cyfryngu. Ond mae'r esemptiad hwn yn cael ei bennu gan y cyfreithiwr yn unig ar hyn o bryd. Awgrymwn y dylai'r esemptiad hwn gael ei lunio yn unol ag esemptiadau eraill, y dylai fod yn gymwys pryd bynnag mae'r *cyfryngwr* yn fodlon bod gan y cleient y cyfryw ofn rhesymol. Ni fyddem yn dymuno bod yn orchmynnol o ran sut dylai cyfryngwyr ystyried y prawf hwn. Drwy ddiffiniad nid oes unrhyw awgrym o orfodi unrhyw geisydd i gymryd rhan mewn cyfryngu - diben y diwygiad hwn yn syml yw ei gwneud yn glir na ddylai cyfryngu gael ei ddiystyru'n awtomatig. Byddwn yn gweithio'n agos gyda grwpiau goroeswyr a rhanddeiliaid eraill i ddeall a monitro effaith y newidiadau hyn.

3.9 Byddai llawer o gyfryngwyr o'r farn y gall cyfryngu fod o fantais hyd yn oed lle bu problemau camdriniaeth ddomestig o bosibl yn y gorffennol, a'r bwriad yw rhoi cyfle i gyfryngu ddigwydd os bydd y partïon yn fodlon. Gall ystyriaeth gael ei rhoi i gyd-gyfryngu, defnyddio mannau aros ar wahân, amserau cyrraedd ac ymadael wedi eu darwahanu, neu ddefnydd cyfryngu ôl a blaen fel na fydd rhaid i'r cleientiaid fod yn yr un ystafell ar unrhyw adeg yn y broses gyfryngu. Nid ydym yn ei gwneud yn ofynnol i'r cyfryngwr gwrdd â'r cleient ym mhob achos cyn ystyried yr esemptiad. Mewn rhai achosion, er enghraifft lle bo cais am waharddeb trais domestig, mae'n bosibl y bydd galwad ffôn rhwng y cyfreithiwr a'r cyfryngwr yn ddigon i'r cyfryngwr fod yn fodlon bod cyfryngu yn

[25] Ceir manylion y prawf hwn yn y papur ymgynghori a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r cynllun ffioedd teuluol ym Mawrth.
[26] Mae hyn yn ceisio hybu datrys anghydfod yn y gwrandawiad llys cyntaf drwy gymodi yn y llys.

amlwg yn amhriodol. Ond fel arfer byddai'r cyfryngwr am gwrdd â'r cleient ar wahân os oedd angen i asesu a yw cyfryngu'n addas.

3.10 Yn y gyfraith gyhoeddus ein nod fydd i bob rhiant dderbyn cymorth cychwynnol a chyngor cyn-achos. Bydd cyllid ar gyfer cynrychiolaeth yn dal i fod yn awtomatig, ar yr amod bod gan riant ddigon o ddiddordeb a'i fod yn dal i ymgysylltu â'r achos. Ar hyn o bryd, mae achosion yn cael eu parhau weithiau pan fydd gan riant ychydig iawn o ddiddordeb yn yr achos, naill ai am eu bod wedi cael ychydig yn unig neu ddim rhan ym mywyd y plentyn neu am eu bod wedi rhoi'r gorau i roi cyfarwyddiadau. Mae'r prawf hwn yn debyg iawn i'r un sydd ar waith eisoes mewn achosion eraill y gyfraith gyhoeddus a bydd yn ataliad pwysig i beidio â defnyddio arian ar gyngor cyfreithiol arbenigol lle nad oes unrhyw bosibilrwydd o wneud gwahaniaeth i ganlyniad achos.

Comisiynu gwasanaethau

3.11 Byddwn yn dechrau cyflwyno comisiynu gwasanaethau cymorth cyfreithiol teuluol o Ebrill 2009 ymlaen, yn unol â'r argymhellion a amlinellwyd yn adroddiad Carter i dendro am wasanaethau ar lefel haen uchaf awdurdodau lleol. Bydd y gwaith comisiynu hwn yn dilyn ymagwedd y gwerth gorau. Byddwn yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr posibl ymgeisio yn erbyn set o feini prawf a fydd yn cynnwys ansawdd, cynhwysedd a phris eu gwasanaeth, yn ogystal â sut mae'n cynnig mynediad i gleientiaid sy'n flaenoriaeth.

3.12 Fel sail hanfodol i gyflwyno tendro am y gwerth gorau, bydd dyraniad rhesymegol cyllidebau rhanbarthol ar sail amcangyfrif o'r cleientiaid cymwys. Cyllidebau tybiannol fydd y rhain a ddyrennir ar lefel yr awdurdod lleol a fydd yn caniatáu i'r LSC yr hyblygrwydd i symud arian rhwng meysydd yn ôl y blaenoriaethau lleol, ar yr amod bod y rhain yn cyd-fynd â'r fframwaith blaenoriaethau cenedlaethol.

3.13 Er enghraifft, mae fframwaith cenedlaethol yr LSC wedi nodi plant sy'n destun achosion gofal fel blaenoriaeth ar gyfer cyllid. Gall awdurdod lleol penodol nodi gwasanaethau i blant digwmni sy'n ceisio lloches fel blaenoriaeth a byddai gan yr LSC yr hyblygrwydd i gomisiynu darparwyr i gyflwyno cyngor achosion gofal i'r grŵp cleientiaid penodol hwn.

3.14 Ni fydd gan yr LSC hyblygrwydd i flaenoriaethu, er enghraifft, comisiynu gwasanaethau cyngor wyneb i wyneb i oedolion heb blant dibynnol sy'n chwilio am ysgariad heb ei amddiffyn os bydd y fframwaith cenedlaethol wedi nodi y dylai'r gwasanaethau hyn gael eu darparu dros y ffôn yn unig.

3.15 Yng Nghymru rydym yn ymgynghori ar hyn o bryd ar a ddylid tendro gwasanaethau'r gyfraith lles cymdeithasol ar lefel ranbarthol, lefel awdurdodau lleol neu'n genedlaethol a sut orau i symud ymlaen â chomisiynu a chyflwyno gwasanaethau ar y cyd [27]. Yn ddarostyngedig i'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwnnw, ein bwriad yw tendro am wasanaethau teuluol yn yr un modd ag ar gyfer y gyfraith lles cymdeithasol ac ar ôl ystyried yr ymatebion byddwn yn cyhoeddi'n hymagwedd yng Nghymru a Lloegr fel ei gilydd. Byddwn yn cynnal

[27] *Making Legal Rights a Reality in Wales* (LSC) Rhagfyr 2006

trafodaethau uniongyrchol â Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gomisiynu gwasanaethau a chyflwyno gwasanaethau yng Nghymru.

3.16 Mae'n bwysig cydnabod na fydd yr ymagwedd hon yn newid hawl unigolyn i gymorth cyfreithiol. Bydd y cyllidebau'n rhai tybiannol, ond byddant yn gysylltiedig â Dangosyddion Perfformiad Allweddol mewn perthynas â swm a nifer y cleientiaid blaenoriaeth sy'n cael mynediad i wasanaethau. Caiff unrhyw amrywiad sylweddol naill ai uwchlaw neu islaw dyraniad rhanbarthol ei adolygu a chaiff camau priodol eu cymryd.

Adran Pedwar

Diwygio'r System Gyfan

4.1 Mae'r adran hon yn amlinellu'r cynigion canlynol:

- Integreiddio'r strategaeth dros gymorth cyfreithiol teuluol â'r strategaeth dros yr holl system cyfiawnder teuluol
- Gweithio gyda'r Cyngor Cyfiawnder Teuluol ar lefel genedlaethol a lleol
- Ymgysylltu â'r farnwriaeth
- Ymgysylltu â chleientiaid
- Gweithio gyda rhanddeiliaid yng Nghymru

4.2 Cafodd gwaith gyda rhanddeiliaid ei nodi fel elfen bwysig yn adolygiad yr Arglwydd Carter. Byddwn yn cymryd rhan weithgar yn y cyfarfodydd chwarterol rhanddeiliaid sy'n cael eu sefydlu o ganlyniad i'r adolygiad hwnnw. Ein bwriad yw parhau i weithio gyda phob parti â diddordeb wrth ddiwygio'r system cyfiawnder teuluol er mwyn iddi ddarparu'r canlyniadau gorau i gleientiaid yn ogystal â bod yn gost-effeithiol. Caiff strategaeth gyffredinol ar gyfer y system cyfiawnder teuluol ei chyhoeddi'n hwyrach eleni a byddwn yn gweithio gyda phartneriaid yn yr Adran Materion Cyfansoddiadol (DCA) a Gwasanaeth Llys Ei Mawrhydi (HMCS) er mwyn sicrhau bod y strategaeth cymorth cyfreithiol yn cyfrannu at y strategaeth ehangach ar gyfer cyfiawnder teuluol.

4.3 Byddwn yn parhau â'n cyfraniad at y Cyngor Cyfiawnder Teuluol (FJC) y mae eu gwaith yn bwysig i ddiwygio a gwella. Byddwn yn trafod ag HMCS ddatblygiad canlyniadau clir am gyfranogiad LSC ar lefel genedlaethol a rhanbarthol fel ei gilydd. Ein bwriad yn y pen draw yw i'r canlyniadau hyn ddatblygu'n dargedau corfforaethol LSC fel rhan o'n rheolaeth perfformiad gyffredinol ac rydym eisoes wedi dechrau drwy ddiffinio targed corfforaethol i nodi a rhannu arfer gorau wrth restru gwrandawiadau.

4.4 Dymunwn weithio'n agos hefyd gyda'r farnwriaeth i wneud yn siŵr eu bod yn ymgysylltu'n llawn â phwysigrwydd rheolaeth effeithiol y gyllideb cymorth cyfreithiol. Er ein bod yn deall bod gan farnwyr gyfrifoldebau sylweddol ac nad ydynt yn gyfrifol am reoli'n cyllideb, credwn serch hynny y gall yr LSC wneud mwy i gefnogi'r farnwriaeth wrth ddeall goblygiadau cyllido gwahanol y dewisiadau maent yn eu dewis. Enghraifft o hyn yw'n harweiniad hyfforddiant diweddar i'r farnwriaeth (drwy'r Bwrdd Astudiaethau Barnwrol) am argaeledd cyllid cyhoeddus ar gyfer gwasanaethau cyfryngu.

4.5 Byddwn yn parhau i weithio gyda'r Bwrdd Cyflwyno Achosion Gofal i weithredu argymhellion y *Review of Child Care Proceedings*. Byddwn hefyd yn gweithio i gyflawni targedau'r Llywodraeth ar leihau oedi diangen mewn achosion llys.

4.6 Rydym hefyd wedi dechrau archwilio gyda'r Adran Addysg a Sgiliau (DfES), CAFCASS, CAFCASS Cymru, DCA ac HMCS sut gallwn gynnal cyd-ddadansoddiadau effaith i nodi sut gall pob adran/asiantaeth ddefnyddio ei chyllideb orau i uchafu'r canlyniadau i bob teulu o fewn y system cyfiawnder teuluol a nodi newidiadau i arferion gweithio ar draws pob maes perthnasol.

4.7 Rydym yn bwriadu parhau gwaith a ddechreuwyd gyda darparwyr drwy'n fforwm ymarferwyr teuluol ac ym maes camdriniaeth ddomestig drwy grwpiau cyfeirio cleientiaid.

4.8 Yng Nghymru byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru, Pwyllgor Cymru CLS, Fforwm Cenedlaethol Cymru CLS a'r is-grŵp ymgynghori â chleientiaid dros Gymru er mwyn deall yr angen am wasanaethau teuluol yng Nghymru a sut orau mae eu hintegreiddio â gwasanaethau'r gyfraith lles cymdeithasol a darpariaeth gwasanaethau eraill.

Amserlen ar gyfer Gweithredu

Mae'r tabl dilynol yn dangos yr amserlen ar gyfer y cynigion y cyfeirir atynt yn y strategaeth. Mae llawer o'r cynigion hyn eisoes yn destun ymgynghoriadau ffurfiol ar wahân neu fe fyddant felly.

Cynnig	**Erbyn Pryd**
Cyhoeddi papur ar dargedau mynediad	Mawrth 2007
Cyflwyno Contractau Unedig	Ebrill 2007
Cyflwyno ffioedd safonol i gyfreithwyr mewn achosion y Ddeddf Plant Arbennig a'r holl waith hyd at y gwrandawiad terfynol mewn Achosion y Gyfraith Breifat	Hydref 2007
Cyflwyno'r cynnig am ddefnydd effeithiol cyllid mewn achosion y Ddeddf Plant Arbennig	Hydref 2007
Cyflwyno rhagdybiaeth gryfach o blaid cyfryngu/datrys anghydfodau mewn achosion plant y Gyfraith Breifat	Hydref 2007
Ffioedd safonol i ymgynghori ag arbenigwyr	Mai 2007
Ymgynghori ar ffi sengl i eiriolwyr	Mai 2007
Cyflwyno contractau a dendrwyd drwy'r gwerth gorau	Dechrau Ebrill 2009

Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol
85 Gray's Inn Road
Llundain WC1X 8TX

tel: (020) 7759 0000
www.legalservices.gov.uk